Sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

Making communications work **for everyone**

# Gwasanaethau'r BBC: cynulleidfaoedd yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 13 Hydref 2017 (diweddarwyd 24 Hydref 2019)

# Gair am y ddogfen hon

Mae'r drwydded ar gyfer gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU yn nodi'r amcanion a'r amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi sy'n briodol ym marn Ofcom ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo ei ddibenion cyhoeddus; i sicrhau darpariaeth sy'n cynnwys allbwn a gwasanaethau unigryw; ac i sicrhau bod holl gynulleidfaoedd y BBC yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.

Mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â'r amodau rheoleiddio yn y drwydded weithredu. Gall Ofcom gymryd camau gorfodi mewn achos o ddiffyg cydymffurfio.

Mae hon yn ddogfen ar wahân sydd ar gael ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru sy'n nodi'r amodau rheoleiddio sy'n berthnasol i wasanaethau'r BBC yng Nghymru yn benodol.

# Cynnwys

## Adran

1. Gwasanaethau'r BBC yng Nghymru 1

2. Amcanion ac amodau rheoleiddio penodol i Gymru 3

## Atodiad

A1. Y drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU 12

# 1. Gwasanaethau'r BBC yng Nghymru

1.1 Mae’r BBC i bawb ledled y Deyrnas Unedig. Mae Siarter y BBC yn sicrhau bod cyflawni gwasanaethau ar gyfer holl wledydd a rhanbarthau'r DU yn ganolog i amcanion y BBC. Mae darparu allbwn a gwasanaethau sy’n diwallu anghenion gwledydd a rhanbarthau’r DU, ac sy’n cyfrannu at yr economi greadigol, yn sail i un o bum diben cyhoeddus y BBC. Hefyd, yn unol â'r Siarter, mae’n rhaid i'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y DU er mwyn cynrychioli a phortreadu bywydau pobl ledled y DU yn gywir ac yn ddilys.

1.2 Mae’r Siarter yn rhoi’r rôl i Ofcom, fel rheoleiddiwr allanol y BBC y rôl o ddal y BBC i gyfrif am gyflawni ei ddibenion cyhoeddus ledled gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU. Rhaid i ni osod trwydded weithredu sy’n rhoi gofynion ar y BBC, sydd wedi’u llunio i sicrhau bod hynny’n digwydd, ac i adrodd ar ei berfformiad. Mae gofyn i’r BBC ystyried anghenion cynulleidfaoedd ym mhob un o wledydd a rhanbarthau’r DU, ac felly mae’n rhaid i Ofcom roi ystyriaeth arbennig i hynny wrth roi gofynion ar y BBC. Mae'r Cytundeb a gyhoeddwyd ochr yn ochr â’r Siarter yn rhoi cyfrifoldeb penodol i Ofcom dros osod targedau cadarn i’r BBC eu cyrraedd yng nghyswllt rhaglenni a chynhyrchu rhaglenni ym mhob un o wledydd y DU.

1.3 Mae llawer o weithgareddau’r BBC yn cael eu cynnal ledled y DU, ac rydyn ni wedi adlewyrchu hyn drwy sefydlu un drwydded weithredu ar gyfer y BBC.[1] Mae llawer o’r gofynion yn y drwydded honno yn berthnasol i wasanaethau a gweithgareddau'r BBC ledled y DU. Er enghraifft, mae’r mwyafrif o’r amodau sy’n berthnasol i’r diben cyhoeddus cyntaf, yr ail ddiben cyhoeddus a'r trydydd diben cyhoeddus i gyd yn berthnasol i’r holl DU, megis natur unigryw rhwydwaith teledu a gwasanaethau radio'r BBC yn gyffredinol.

1.4 Ar ben hynny, ceir gofynion sydd wedi'u neilltuo i Gymru yn unig: mae’r rhain yn ofynion penodol ynghylch gweithgareddau'r BBC yng Nghymru, ac ynghylch y gwasanaethau mae'n ei ddarparu sy’n canolbwyntio ar gynulleidfaoedd yng Nghymru. Mae’n hollbwysig bod modd i dalwyr ffi’r drwydded weld yn hawdd beth sy’n ofynnol i’r BBC ei ddarparu iddynt, lle bynnag y maent yn y DU.

1.5 Ar gyfer pob un o wledydd y DU, rydyn ni’n sicrhau bod y drwydded weithredu ar gael iddynt mewn ffurflen sy'n nodi’n glir yr hyn rydyn ni’n cynnig ei ofyn i’r BBC yn y rhanbarth hwnnw. Mae’r ddogfen hon yn gwneud hynny ar gyfer y BBC yng Nghymru. Mae’n nodi’r amcanion penodol a'r gofynion gorfodadwy (“amodau rheoleiddio”) rydyn ni’n eu priodoli i’r BBC yng Nghymru. Mae’r rhain yn edrych ar amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys gwariant y BBC yng Nghymru yn ogystal â’r gofynion sy'n benodol i ddarparu rhaglenni ar

---

[1] Mae’r amodau rheoleiddio yn cynnwys gofynion sy'n berthnasol ledled y DU a gofynion ar gyfer pob un o wledydd a rhanbarthau'r DU. Mae modd gweld fersiwn awdurdodol o’r amodau rheoleiddio hyn yn y “Drwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau'r BBC yn y DU”, sydd wedi’i hatodi i'r ddogfen hon.

gyfer Cymru, megis lefel sylfaenol o allbwn newyddion lleol a materion cyfoes i gael eu darlledu ar y BBC yng Nghymru.

1.6 Byddwn yn mesur yn flynyddol sut mae'r BBC yn perfformio'n erbyn y gofynion hyn. Byddwn hefyd yn adrodd ar sut mae'n cyrraedd disgwyliadau talwyr y ffi drwydded ym mhob rhan o'r DU drwy ein fframwaith mesur perfformiad. Byddwn yn ogystal yn sefydlu rhaglen o ymchwil cynulleidfaoedd blynyddol i sicrhau bod perfformiad y BBC yn cael ei dracio yn gyhoeddus. Gyda'r ymchwil yma, byddwn yn mesur i ba raddau mae pobl ar draws Cymru yn defnyddio ac yn teimlo am wasanaeth y BBC. Byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth am y nifer o oriau mae'r BBC yn darlledu ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru yn ogystal â'r lefelau gwariant ar allbwn rhwydwaith sy'n gymwys sy'n cael ei gynhyrchu.

# 2. Amcanion ac amodau rheoleiddio penodol i Gymru

Mae'r adran hon yn rhestru'r holl amcanion a'r amodau rheoleiddio gorfodadwy rydyn ni'n wedi'u rhoi ar y BBC yng Nghymru yn y drwydded weithredu. Caiff rhif y paragraff ei restru hefyd fel bod modd mapio'r amodau yn ôl i'r drwydded weithredu lawn, sydd wedi'i chynnwys fel atodiad i'r ddogfen hon.

| Rhif cyfeirnod | Amcanion |
|---|---|
| 1.24<br><br>(1.24.2) | Mae Ofcom yn ystyried dylai'r BBC, i gyflawni ei Bwrpas Cyhoeddus o ddarparu newyddion diragfarn a gwybodaeth i helpu pobl i ddeall ac i ymgysylltu gyda'r byd o'u cwmpas yn unol â'u rwymedigaethau o dan y Siarter, wneud y canlynol:<br><br>• cadw'r themâu a'r straeon rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol o fewn ei raglenni newyddion, materion cyfoes a rhaglenni ffeithiol, i alluogi cynulleidfaoedd i ddatblygu dealltwriaeth eang o'r hyn sy'n digwydd yn lleol, yn genedlaethol ac yn y byd yn ehangach. |
| (1.36.1 to 1.36.4)<br><br>1.37 | Mewn perthynas â gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, dylai'r BBC wneud y canlynol:<br><br>• cynrychioli a phortreadu pob carfan o gynulleidfa'r gwledydd a'r rhanbarthau yn gywir ac yn ddilys ledled ei allbwn, ei wasanaethau a'i genres[2];<br>• dosbarthu ei adnoddau cynhyrchu ledled y Deyrnas Unedig gan sicrhau ei fod yn cefnogi'r diwydiannau creadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Dylai hyn hefyd gynnwys cynhyrchu ledled rhanbarthau Lloegr a meithrin twf cynaliadwy ar gyfer y diwydiannau creadigol ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig;<br>• sicrhau bod rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn gwasanaethu'r bobl sy'n byw yn yr ardal lle darperir y gwasanaeth ac yn creu cynnwys sy'n berthnasol ac o ddiddordeb iddynt. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, dylai hyn gynnwys darlledu yn yr ieithoedd brodorol ac amrywiaeth helaeth o genres, gan gynnwys drama, comedi a chwaraeon; a |

[2] Ystyr 'cynrychiolaeth' yw i ba raddau y mae pobl a nodweddion yn ymddangos, ac ystyr 'portread' yw'r ffyrdd y caiff y bobl a'r cymeriadau hyn eu darlunio. Er mwyn i gynrychiolaeth fod yn gywir rydyn ni'n disgwyl i nifer y

| | |
|---|---|
| | • chyfrannu at les cymdeithasol drwy addysg ddiwylliannol, ymwybyddiaeth a dod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau.<br><br>Drwy wneud hynny byddwn yn disgwyl i weithlu'r BBC ei hun a'r cwmnïau cynhyrchu mae'n eu comisiynu i adlewyrchu gwahanol gymunedau'r Deyrnas Unedig a'i chenhedloedd a'i rhanbarthau -ac i ddangos cynnydd amlwg bob blwyddyn |
| 1.39<br><br>(1.39.1 to 1.39.4) | Mewn perthynas â chenhedloedd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, dylai'r BBC wneud y canlynol:<br><br>• sdlewyrchu a phortreadu'n gywir holl grwpiau cynulleidfaoedd o'r cenhedloedd a'r rhanbarthau ar draws ei allbwn, ei wasanaethau a'i genres<br>• dosbarthu ei adnoddau cynhyrchu ar draws y Deyrnas Unedig i sicrhau ei fod yn cefnogi'r diwydiannau creadigol yn y cenhedloedd a rhanbarthau. Dylai hyn hefyd gynnwys cynhyrchu ar draws rhanbarthau Lloegr ac adeiladu twf cynaliadwy ar gyfer y diwydiannau creadigol ar draws y Deyrnas Unedig;<br>• sicrhau bod rhaglenni ar gyfer y cenhedloedd a'r rhanbarthau yn gwasanaethu cynnwys o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i'r bobl sy'n byw yn yr ardal y darparwyd y gwasanaeth ar ei chyfer. O fewn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, dylai hyn gynnwys darlledu ieithoedd brodorol ac amrywiaeth eang o genres yn cynnwys drama, comedi a chwaraeon; a<br>• helpu i gyfrannu at les cymdeithasol drwy addysg ddiwylliannol, ymwybyddiaeth a dod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau. |

| **Rhif amod trwydded** | **Amodau rheoleiddiol** |
|---|---|
| 2.1<br><br>(2.1.3) | Mae Ofcom wedi gosod yr Amodau Rheoleiddiol mae'n ystyried yn addas ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC i:<br><br>sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr yn cael eu gwasanaethu'n dda. |

bobl sy'n ymddangos ar raglenni'r BBC fod yn adlewyrchiad cyffredinol o boblogaeth y DU. Byddwn yn asesu i ba raddau y mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu portreadu'n ddilys drwy ymchwil ymysg defnyddwyr.

<table>
<tr>
<td></td>
<td>Yn ystod pob Blwyddyn Galendr, mae’n rhaid i'r BBC sicrhau:<br><br>• bod o leiaf 50% o oriau’r Rhaglenni Rhwydwaith sy’n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud y tu allan i ardal yr M25;<br>• bod y Rhaglenni Rhwydwaith sy’n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig y tu allan i ardal yr M25 (gyda’i gilydd) yn cynrychioli ystod briodol o raglenni; a<br>• bod o leiaf 50% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy’n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25.</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| 2.7.2 | Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod sianel newyddion y BBC yn cynnwys mwy o newyddion lleol/rhanbarthol nag un o'r sianeli newyddion parhaus eraill yn y DU. |
| 2.42<br><br>(2.42.1 – 2.42.5) | Mae'n rhaid i'r BBC roi adroddiad blynyddol i Ofcom ar sut mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn gyffredinol wedi adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig yn ystod y Flwyddyn flaenorol. Yn benodol, mae'n rhaid i'r BBC ddangos sut mae wedi gwneud y canlynol:<br><br>• ystyried yr ystod o gymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig. Dylai hyn gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chefndir economaidd-gymdeithasol;<br><br>• gwasanaethu a darparu cynnwys ar gyfer yr ystod o gymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig;<br><br>• cynrychioli cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig yn gywir;<br><br>• rhoi portread dilys o'r cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig; a chodi ymwybyddiaeth am wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau amgen y cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig. |
| 2.43 | Rhaid i'r BBC roi adroddiad blynyddol i Ofcom sy'n dangos i ba raddau mae'r BBC wedi dod yn ei flaen yn ystod y Flwyddyn flaenorol tuag at gyrraedd unrhyw dargedau cynrychiolaeth a/neu bortreadu y mae wedi'u gosod. |
| 2.44<br><br>(2.44.1 – 2.44.3) | Mae'n rhaid i'r BBC fesur boddhad cynulleidfaoedd yn ystod y Flwyddyn ariannol flaenorol o ran adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol ym mhob cwr o'r DU ledled Gwasanaethau Cyhoeddus y DU[3], ac adrodd ar hynny i Ofcom bob blwyddyn gan roi sylw penodol i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ym mhob genre. Rhaid i hyn gynnwys boddhad cynulleidfaoedd yn y meysydd canlynol:<br><br>• sut mae'r BBC yn cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol;<br><br>• sut mae'r BBC yn adlewyrchu poblogaeth gyfan y Deyrnas Unedig ar sgrin ac ar yr awyr, gan roi sylw penodol i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ym mhob genre; a<br><br>• sut mae'r BBC yn codi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau. |
| | |

[3] Nid yw Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn cynnwys y World Service na gwasanaethau masnachol y BBC (gweler sut diffiniwyd 'Gwasanaethau Cyhoeddus y DU' yn Atodiad 2 yn y Drwydded) .

| | |
|---|---|
| 2.45<br><br>(2.45.1 – 2.45.2) | Os mewn unrhyw Flwyddyn Ariannol bydd mesuriad y BBC o foddhad cynulleidfaoedd yn unol ag amod 2.44 yn awgrymu bod carfan benodol o'r gynulleidfa yn anfodlon â pherfformiad y BBC yn y meysydd hyn, mae'n rhaid i'r BBC:<br><br>• yn unol ag amod 2.44 nodi yn ei adroddiad ar gyfer y Flwyddyn ariannol honno'r camau y bydd rhaid eu cymryd i geisio gwella boddhad cynulleidfaoedd ymysg y carfannau penodol hynny o'r gynulleidfa; ac,<br><br>• yn unol ag amod 2.44, nodi yn ei adroddiad ar gyfer y Flwyddyn ariannol ganlynol y camau a gymerwyd a'u heffaith ar foddhad cynulleidfaoedd mewn perthynas â'r carfannau penodol hynny o'r gynulleidfa. |
| 2.46 | Erbyn 1 Ebrill 2018 mae'n rhaid i'r BBC bennu cod ymarfer wedi'i gymeradwyo gan Ofcom, sy'n nodi'r camau y bydd y BBC yn eu cymryd pan fydd yn comisiynu cynnwys ledled pob genre er mwyn sicrhau bod cynnwys yn cynrychioli'n gywir ac yn rhoi portread dilys o'r cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig, a chydymffurfio â'r cod hwnnw. Rhaid i'r cod ymarfer gynnwys rhaglenni comisiwn sy'n cael eu cynhyrchu'n fewnol gan y BBC a rhaglenni comisiwn sy'n cael eu cynhyrchu'n allanol. |
| 2.47<br><br>(2.47.1- 2.47.3) | Yn benodol, mae'n rhaid i'r cod ymarfer nodi'r camau y bydd y BBC yn eu cymryd wrth gomisiynu cynnwys mewn perthynas â:<br><br>• portreadu ar y sgrin a chastio;<br>• amrywiaeth y gweithlu; a'r<br>• broses penderfyniadau cynhyrchu a chomisiynu. |
| 2.48 | Rhaid i'r BBC fonitro ei fod yn cydymffurfio â'r cod ymarfer a rhaid iddo gyflwyno adroddiad blynyddol i Ofcom ar ei gydymffurfiad â'r cod ymarfer yn ystod y Flwyddyn flaenorol. |
| 2.49<br><br>(2.49.1- 2.49.2) | Caiff Ofcom wneud y canlynol unrhyw bryd, drwy hysbysu'r BBC yn ysgrifenedig:<br><br>• cymeradwyo addasiadau i god cymeradwy pan fydd Ofcom o'r farn y byddai'r cod fel y'i diwygiwyd yn diwallu'r amcanion sydd wedi'u nodi yn amod 2.46; neu<br>• dynnu ei gymeradwyaeth o god pan fydd Ofcom yn credu nad ydy'r cod yn diwallu'r amcanion a nodir yn amod 2.46. |

| | |
|---|---|
| 2.50<br><br>(2.50.1-<br>2.50.4) | Rhaid i'r BBC fonitro ac adrodd i Ofcom bob blwyddyn ar amrywiaeth holl staff (cyflogeion a gweithwyr llawrydd) y BBC sy'n cael eu cyflogi mewn perthynas â darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU. Rhaid i'r adroddiad fod ar ffurf a bennir gan Ofcom a rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth ganlynol:<br><br>• nifer y staff o'r fath yn ôl oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chefndir economaidd-gymdeithasol;<br>• lefel swydd staff o'r fath yn ôl y categorïau canlynol: aelodau Bwrdd ac anweithredol; uwch reolwyr; rheolwyr canol/iau a'r rheini sydd ddim yn rheolwyr;<br>• math o swydd staff o'r fath yn ôl y categorïau canlynol: rhaglenni; comisiynu; technegol/peirianneg; gwerthu/marchnata; a swyddogaethau cymorth/gweinyddol;<br>• i ba raddau mae'r BBC wedi dod yn ei flaen yn ystod y Flwyddyn flaenorol tuag at gyrraedd unrhyw dargedau amrywiaeth gweithlu y mae wedi'u gosod. |
| 2.51 | Nid oes dim byd yn amod 2.50 yn mynnu bod y BBC yn darparu unrhyw wybodaeth i Ofcom pan fyddai darparu gwybodaeth o'r fath yn torri deddfwriaeth diogelu data perthnasol. |
| 2.52 | Caiff Ofcom gyhoeddi unrhyw adroddiad a ddarperir gan y BBC o dan amod 2.42, 2.43, 2.44, 2.48 or 2.50. |
| 2.53<br><br>(2.53.1 –<br>2.53.3) | Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ymhob Blwyddyn Calendr:<br><br>• bod o leiaf 50% o'r oriau o Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y DU yn cael eu gwneud y tu allan i Ardal yr M25;<br>• bod y Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig tu allan i ardal yr M25 (gyda'i gilydd) yn cynnwys amrywiaeth eang o raglenni; a<br>• bod o leiaf 50% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn gallu cael eu trosglwyddo i gynhyrchiad rhaglenni mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu tu allan i ardal yr M25. |
| 2.58<br><br>(2.58.1-<br>2.58.3) | Rhaid i'r BBC sicrhau'r canlynol:<br><br>• tan 31 Rhagfyr 2021 ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 4% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yng Nghymru;<br>• o 1 Ionawr 2022 ymlaen ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 5% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yng Nghymru; ac<br>• ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 5% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yng Nghymru. |
| 2.59 | Caiff y BBC ofyn bod canran yr oriau o Raglenni Rhwydwaith a bennir yn amod 2.58.1 neu amod 2.58.2 yn cael ei chwtogi mewn perthynas â Blwyddyn Galendr benodol. Gall Ofcom |

| | |
|---|---|
| | ystyried cais o'r fath pan fydd yn ymddangos i Ofcom yn amgylchiadau'r achos y byddai'r gostyngiad yn sicrhau cyfran addas o Raglenni Rhwydwaith. |
| | Mae'r gwahanol ganolfannau cynhyrchu y mae'r Gwariant y cyfeirir ato yn amodau 2.53, 2.54, 2.56, 2.58 and 2.60 yn cyfeirio atynt, yn gorfod cynrychioli ystod eang o ganolfannau cynhyrchu o'r fath. |
| 2.63 | **Arweiniad**<br><br>Wrth gydymffurfio ag amodau 2.53 to 2.60, rhaid i'r BBC ystyried unrhyw arweiniad y mae modd i Ofcom ei gyhoeddi. |
| 2.64 | Mewn perthynas â Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU sydd wedi cael eu dylunio ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y DU[4], mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf traean o'r gwariant perthnasol yn cael ei wario y tu allan i ardal yr M25 bob Blwyddyn. At ddibenion y gofyniad hwn mae "gwariant perthnasol" yn golygu gwariant ar gynhyrchu rhaglenni (heb gynnwys gwariant ar gostau sydd wedi'u cyllido'n ganolog). |
| 2.65<br><br>(2.65.1 – 2.65.5) | Er mwyn diwallu'r gofyniad yn amod 2.52, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod rhywfaint o'r gwariant perthnasol yn cael ei wario mewn perthynas â phob un o'r gwasanaethau radio canlynol:<br><br>• Radio 1;<br>• Radio 2;<br>• Radio 3;<br>• Radio 4;<br>• BBC Radio 5 live. |
| 2.66 | Mewn perthynas â **Radio 3**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf traean o'r Gwariant perthnasol yn cael ei wario y tu allan i ardal yr M25 bob Blwyddyn. At ddiben y gofyniad hwn, ystyr "gwariant perthnasol" yw gwariant ar gynhyrchu rhaglenni (ddim yn cynnwys gwariant ar gostau wedi'u hariannu'n ganolog) a dyraniad y cymhorthdal i'r cerddorfeydd canolog gan Radio 3. |
| 2.67<br><br>2.67.1-2.61.5 | Mewn perthynas â **BBC One** a **BBC Two** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau'r canlynol yn ystod pob Blwyddyn Galendr:<br><br>• yn y Flwyddyn Galendr 2019, bod o leiaf 5,969 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol;<br>• yn y Flwyddyn Galendr wedi 2019, bod y rhaglenni hynny yn cynnwys ystod priodol o raglenni (gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol); |

[4] Radio 1; 1Xtra; Radio 2; Radio 3; Radio 4; BBC 4 Extra; BBC Radio 5 live; BBC Radio 5 live sports extra; BBC 6 Music; BBC Asian Network.

| | |
|---|---|
| | • bod o leiaf 95% o'r rhaglenni hynny yn cynnwys rhaglenni sydd wedi'u gwneud mewn gwlad neu ranbarth sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni a fydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol;<br>• yn y Flwyddyn Galendr 2019 bod o leiaf 579 o oriau o'r rhaglenni hynny yn cynnwys darlledu rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn ystod y Cyfnod Gwylio Brig; a<br>• ymhob Blwyddyn Galendr wedi 2019, bod o leiaf 557 o oriau o'r rhaglenni hynny yn cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion sy'n cael eu darlledu yn syth cyn neu ar ôl y Cyfnod Gwylio Brig a<br>• yn y Flwyddyn Galendr 2019, bod o leiaf 195 o oriau'r rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion, ar amserau sy'n cael eu darlledu yn syth cyn neu wedi'r Cyfnod Gwylio Brig; a<br>• ymhob Blwyddyn Galendr wedi 2019, bod o leiaf 179 o oriau'r rhaglenni hynny sy'n cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion ar amserau yn syth cyn neu wedi'r Cyfnod Gwylio Brig. |
| 2.68 | Yn ystod bob Blwyddyn Galendr, bod yr amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer rhaglenni sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn unol ag amod 2.67 yn cynnwys darlledu o leiaf 4,300 o oriau o newyddion sydd o ddiddordeb rhanbarthol ar gyfnodau drwy gydol y diwrnod ar **BBC One**, a bod rhaid i o leiaf 2,100 awr o'r rheini fod yn ystod y Cyfnod Gwylio Brig. |
| 2.69 | Wrth gydymffurfio ag amodau 2.67 a 2.68, rhaid i'r BBC ystyried unrhyw arweiniad y mae modd i Ofcom ei gyhoeddi. |
| 2.70 | Mewn perthynas â **BBC Parliament**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 300 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni ynghylch gweithgareddau Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Cymru bob Blwyddyn. |
| 2.71<br><br>(2.71.1 – 2.71.2) | • Mewn perthynas â phob **Gwasanaeth Radio Cyhoeddus y DU** a bennir yn amod 2.72, mae'n rhaid i'r BBC **sicrhau ymhob Blwyddyn Ariannol, bod** bod cyfran y cynnwys sy'n gynnwys sgwrsio ar y gwasanaeth hwn:<br>• ar gyfartaledd o leiaf 60% mewn oriau craidd, heblaw am BBC Radio nan Gàidheal, lle mae angen i'r BBC sicrhau bod cyfran y cynnwys sy'n gynnwys sgwrsio ar gyfartaledd o leiaf 40% mewn oriau craidd; a<br>• 100% yn ystod yr Oriau Brig Amser Brecwast. |
| 2.72<br><br>(2.72.1-2.72.6 | Nodir y Gwasanaethau Radio Cyhoeddus canlynol o'r DU at ddiben amod 2.59:<br>• pob gwasanaeth BBC Local Radio;<br>• BBC Radio Scotland;<br>• BBC Radio nan Gàidheal;<br>• BBC Radio Wales;<br>• BBC Radio Cymru;<br>• BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle. |

| | |
|---|---|
| 2.73 | Yn amod 2.71, ystyr "oriau craidd" yw 06:00 i 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac mewn perthynas â BBC Radio nan Gàidheal, 07.30 i 19.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener; ac "oriau brig amser brecwast" yw 07:00 i 08:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener. |
| 2.85<br><br>(2.85.1 – 2.85.2) | Mewn perthynas â **BBC One Wales**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bob Blwyddyn Ariannol:<br><br>• bod o leiaf 275 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a<br>• bod o leiaf 65 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw "rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael, ac nid yw'n cynnwys rhaglenni materion cyfoes. |
| 2.86 | Mewn perthynas â **BBC One Wales** a **BBC Two Wales** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru yn ei raglenni. |
| 2.87 | Mewn perthynas â **BBC Two Wales**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 175 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion bob Blwyddyn. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw "rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael, ac nid yw'n cynnwys rhaglenni materion cyfoes. |
| 2.88<br><br>(2.88.1 – 2.88.2) | Mewn perthynas â **BBC Radio Wales**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:<br><br>• bod o leiaf 32 o oriau bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys rhai sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael); a<br>• bod cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i Gymru yn benodol yn cael eu darparu. |
| 2.89<br><br>(2.89.1 – 2.89.2) | Mewn perthynas â **BBC Radio Cymru**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:<br><br>• bod o leiaf 23 o oriau bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau); a<br>• bod cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i Gymru yn benodol yn cael eu darparu. |
| 2.90<br><br>(2.71.1 – 2.71.3) | Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:<br><br>• ei fod yn darparu newyddion a gwybodaeth i Gymru;<br>• bod cynnwys yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg; a<br>• bod darpariaeth chwaraeon penodol i Gymru yn cael ei darparu. |

# A1. Y drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys y drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU sy'n cynnwys anghenion ledled y DU ar gyfer pob un o genhedloedd a rhanbarthau'r DU. [5] Ar 29 Mawrth 2017, fe wnaethom ymgynghori ynghylch ein cynigion ar gyfer dal y BBC i gyfrif am ei berfformiad. Rydyn ni wedi cyhoeddi datganiad sy'n crynhoi'r sylwadau a gawsom ynghylch y cynigion hynny, ein hymatebion i'r sylwadau hynny, a'r newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud i'r drwydded a'r mesurau perfformiad o ganlyniad i hynny. [6]

[5] Y fersiwn awdurdodol o'r amodau rheoleiddio rhain yw'r "Drwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU" sy'n cael ei ailgynhyrchu yn yr atodiad i'r ddogfen hon.

[6] Datganiad Ofcom, Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer gynulleidfaoedd: https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/bbc-performance